

Papur Briffio WLGA

Bwyta'n iach mewn ysgolion

Penaethiaid a Llywodraethwyr Ysgolion a Gynhelir

13 Tachwedd 2017

Cydlynedd bwyd yn yr ysgol

gareth.thomas@wlga.gov.uk



Mae'n rhaid i'r bwyd a diod sy'n cael eu darparu ym mhob ysgol a gynhelir gan awdurdod fodloni [Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion \(Safonau a Gofynion Maethol\) \(Cymru\) 2013](#) ('Rheoliadau'). Seilir y Rheoliadau hyn ar ganllawiau blaenorol Blas am Oes ac maent yn rhan o [Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion \(Cymru\) 2009](#) ('Mesur') ehangach. Am arweiniad manwl i weithredu'r Rheoliadau a'r Mesur, cyfeiriwch at [Bwyta'n Iach mewn Ysgolion a Gynhelir: Arweiniad Statudol ar gyfer Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu](#). Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi'r ddeddfwriaeth uchod, gan ganolbwyntio ar ddyletswyddau llywodraethwyr, ac yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael oddi wrth Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA).

Y Rheoliadau

Mae'r Rheoliadau yn pennu **safonau maethol** ar gyfer cinio ysgol cyfartalog a **gofynion bwyd a diod** drwy gydol y diwrnod ysgol. Mae'r safonau maethol yn pennu gwerthoedd isaf ac uchaf am ynni a 13 o faetholion ac yn berthnasol i ginio ysgol cyfartalog a gyfrifir dros bob wythnos cylch bwydlen. Mae'r gofynion bwyd a diod yn disgrifio'r mathau o fwyd a diod mae'n rhaid eu darparu, eu cyfyngu ac i beidio â'u caniatáu rhwng brechwast a 6pm.

Rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sicrhau bod yr holl fwyd a diod a darperir yn adeiladau'r ysgol yn cydymffurfio â'r Rheoliadau, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyndedig i):

- Brechwast
- Egwyl
- Cinio
- Clybiau ar ôl ysgol
- Siopau bach ysgolion
- Peiriannau gwerthu
- Caffis 6^{ed} Dosbarth

Pan gaiff bwyd a diod eu darparu gan arlwywyr awdurdod lleol neu arlwywyr contract, wedi eu caffael gan yr awdurdod lleol, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth. Pan gaiff bwyd a diod eu darparu gan arlwywyr mewnol neu arlwywyr contract, wedi eu caffael gan yr ysgol, y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae WLGA wedi llunio [Llawlyfr Dadansoddi Maeth](#) i helpu darparwyr prydau ysgolion, penaethiaid a llywodraethwyr i ddadansoddi cyfansoddiad maethol cinio ysgol cyfartalog. Mae meddalwedd a hyfforddiant dadansoddi maeth ar gael drwy WLGA ar gyfer arlwywyr awdurdod lleol ac arlwywyr mewnol. Fel arfer bydd arlwywyr contract yn ymgymryd â dadansoddi maeth fel rhan o'u cytundeb contract. Mae Cydlynedd Bwyd yn yr Ysgol WLGA ar gael i roi cymorth ac arweiniad i bob darparwr prydau ysgol.

I helpu darparwyr prydau ysgol, penaethiaid a llywodraethwyr i gasglu tystiolaeth a dangos cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau, mae WLGA wedi cynhyrchu [Canllawiau a Phecyn Tystiolaeth Bwyta'n Iach mewn Ysgolion](#). Mae Cydlynedd Bwyd yn yr Ysgol WLGA yn cyhoeddi [Tystysgrifau Cydymffurfiaeth](#) blynyddol i ddarparwyr prydau ysgol sy'n cyflwyno tystiolaeth gywir a chydymffurfiol. Proses wirfoddol yw'r ardystio yma ond mae'n dwyn pwysau gyda Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru ac Estyn yn ystod achrediadau ac arolygiadau, yn y drefn honno.

Nid yw'r Rheoliadau yn berthnasol i fwyd sy'n cael ei ddwyn i mewn i'w fwyta'n bersonol, bwyd ar gyfer digwyddiadau codi arian, bwyd i ddathlu unrhyw brofiad crefyddol neu ddiwylliannol, na bwyd a ddarperir fel gwobrau am gyflawniad, ymddygiad neu ymdrech. Fodd bynnag, dylai cyrff llywodraethu ystyried eu dyletswydd i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach a rhoi polisiâu bwyta'n iach ar waith fel rhan o ymagwedd yr ysgol gyfan yn unol â hynny.

Y Mesur

Rhoddodd y Mesur y pŵer i Weinidogion Cymru wneud y Rheoliadau uchod ac mae'n gosod dyletswydd ar Estyn i roi gwybodaeth i Weinidogion Cymru yn gyson am y camau a gymerir mewn ysgolion a gynhelir i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r Mesur hefyd yn gosod y dyletswyddau dilynol ar awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu:

- Hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach gan ddisgyblion.
- Cynnwys gwybodaeth yn adroddiad y llywodraethwyr am y camau a gymerwyd i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach gan ddisgyblion.
- Sicrhau bod cyflenwad o ddŵr yfed ffres ar gael am ddim ar bob adeg.
- Annog manteisio ar brydau a llaeth yn yr ysgol.
- Cymryd camau i amddiffyn hunaniaeth disgyblion sy'n derbyn cinio ysgol am ddim.

Mae'r [Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol a Chyrrff Llywodraethu](#) yn rhoi manylion y camau priodol i gyflawni'r dyletswyddau hyn. Yn oystal, mae Llywodraeth Cymru /Techyd Cyhoeddus Cymru ac Estyn wedi cynhyrchu [Gwobr Ansawdd Genedlaethol Dangosyddion ar gyfer Rhwydwaith Cynlluniau Ysgol Iach Cymru](#) a [Chanllawiau Atodol am Fyw yn Iach](#), yn y drefn honno.

Cyfeiriadau

Mae dogfennau deddfwriaeth ar gael o <http://www.legislation.gov.uk>

Mae dogfennau Arweiniad Statudol ar gael o <http://learning.gov.wales>

Mae dogfennau ategol WLGA ar gael o <http://wlga.cymru/home>